

Gwasanaeth, Pendref, Mehefin 2021

Emyn : Mae'r nefoedd faith uwchben

Mae'r nefoedd faith uwchben yn datgan mawredd Duw,
mae'r haul a'r lloer a'r sêr i gyd yn dweud mai rhyfedd yw.

Fe draetha dydd i ddydd a nos i nos o hyd
ymhob rhyw faith, ymhob rhyw le, am Grëwr doeth y byd.

Ond yn ei gyfraith lân fe ddengys Duw ei hun
yn Dduw mewn cymod drwy ei Fab â gwael, golledig ddyn.

O boed fy ngeiriau oll, a'm calon, O fy Nuw,
yn gymeradwy ger dy fron tra bwy'n y byd yn byw.

Mae'n anodd bod yn wyddonydd ac yn Gristion. Mae'r addysg wyddonol yn mynu bod dyn yn canfod tystiolaeth uniongyrchol ddiameduol cyn derbyn neu gredu unrwybeth. Ond mae'r ffordd Gristnogol yn seiliedig ar FFYDD. Drwy ffydd y daw'r bywyd Cristnogol yn fyw.

Yn ddiweddar, fe welais i ffilm ar Netflix o'r enw "A week away". "Musical" yw'r ffilm, yn son am wythnos ym mywydau criw o bobl ifanc mewn "Summer Camp" Cristnogol yn yr UD. Mae bachgen, sydd wedi colli ei ffordd am amryw o resymau, yn dod i weld fod 'na ffordd well, yn gwneud ffrindiau gorau newydd, ac yn syrthio mewn cariad mewn mwy nag un ystyr.

Mewn un golygfa, mae'r ddau brif gymeriad, y bachgen a'i ddarpar-gariad, yn siarad am eu teuluoedd a'u ffydd. Mae'r ferch yn esbonio'i daliadau fel hyn: "I don't KNOW know; I just choose to believe; I mean, that's faith, right". Hyny yw, er nad yw hi'n gallu profi tu hwnt i amheuaeth bod ei ffydd yn iawn, neu'n gywir, eto i gyd y mae wedi "dewis credu". Mae'n rhaid i mi gyfaddef fod y brawddegau wedi cael cryn effaith arna i. "Dewis credu". Mor syml, mor drawiadol o syml. "Dewis credu". Nid gorfodaeth, na disgwyliad, na flach o weledigaeth, ..., jyst dewis.

Y bore 'ma dwi am ddarllen adnodau o'r Beibl, ac ambell gerdd, sy'n taflu goleuni ar y "dewis i gredu". Mae rhai darlleniadau yn ystyried Duw'r creawdwr, eraill ein perthynas uniongyrchol â Duw drwy fywyd a dysgeidiaeth yr Iesu, ac eraill yn s^{on} am y newid byd sy'n digwydd unwaith i ni "ddewis credu".

DewisCredu (20210423)

Llunydd llawenydd i'm llyw, â'i neges
Anhygoel, unigryw;
Adwy mewn storom ydyw:
Da 'di cymodi â Duw.

Fe yw undeb cyfandod - rhith a hud
Anhraethiedig orfod;
Drwy faddau daw rhyfeddod:
“Gad e ‘fynd, a ‘gei di fod.”

Heol drwy lyn amheuaeth, llusern yw
Gras Duw, gweledigaeth;
Agoriad cariad i'r caeth,
‘Drwy ei gariad, rhagoriaeth.

I'r dŵr er fy mryderon - yn eisiau
Ias y ffrydiau bywion;
Yn llwyr, â'm henaid yn llon
Er oifad yn yr afon.

Mellten llachar a tharan eilaid gwyrth
Gweld y gwir o'r unman;
‘Nawr y Gair yw gwefr y gân:
Cafell y cariad cyfan.

Gwefreiddiol fraint duwiolfryd ei gariad
O'm gwawrio i'm machlud;
Lloni, byw, yw'm lle'n y byd:
A-men i bob un munud.

Codi cyni meddwl cau - rhoi eigion
Y galon i'r golau;
Clir yw gwawr y gwir o'r gau:
Tad, dy gariad yw'r gorau.

IOAN1

1Yn y dechreuad yr oedd y Gair (neu'r logos neu'r deall); yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair. 2Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw. 3Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod. 4Ynndo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. 5Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

RHUFEINIAID1

18Y mae digofaint Duw yn cael ei ddatguddio o'r nef yn erbyn holl annuwioldeb ac anghyfiawnder pobl sydd, trwy eu hanghyfiawnder, yn atal y gwirionedd. 19Oherwydd y mae'r hyn y gellir ei wybod am Dduw yn amlwg iddynt, a Duw sydd wedi ei amlygu iddynt. 20Yn wir, er pan greodd Duw y byd, y mae ei briodoleddau anweledig ef, ei dragwyddol allu a'i dduwdod, i'w gweld yn eglur gan y deall yn y pethau a greodd. Am hynny, y maent yn ddiesgus. 21Oherwydd, er iddynt wybod am Dduw, nid ydynt wedi rhoi gogoniant na diolch iddo fel Duw, ond yn hytrach wedi troi eu meddyliau at bethau cwbl ofer; ac y mae wedi mynd yn dywyllwch arnynt yn eu calon ddiiddeall. 22Er honni eu bod yn ddoeth, y maent wedi eu gwneud eu hunain yn ffyliaid. 23Y maent wedi ffeirio gogoniant yr anfarwol Dduw am ddelw ar lun dyn marwol, neu adar neu anifeiliaid neu ymlusgiaid.

IOAN3

1Yr oedd dyn o blith y Phariseaid, o'r enw Nicodemus, aelod o Gyngor yr Iddewon. 2Daeth hwn at Iesu liw nos a dweud wrtho, "Rabbi, fe wyddom iti ddod atom yn athro oddi wrth Dduw; ni allai neb wneud yr arwyddion hyn yr wyt ti'n eu gwneud oni bai fod Duw gydag ef." 3Atebodd Iesu ef: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw." 4Meddai Nicodemus wrtho, "Sut y gall neb gael ei eni ac yntau'n hen? A yw'n bosibl, tybed, i rywun fynd i mewn i groth ei fam eilwaith a chael ei eni?" 5Atebodd Iesu: "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt, oni chaiff rhywun ei eni o ddŵr a'r Ysbryd ni all fynd i mewn i deyrnas Dduw. 6Yr hyn sydd wedi ei eni o'r cnawd, cnawd yw, a'r hyn sydd wedi ei eni o'r Ysbryd, ysbryd yw. 7Paid â rhyfeddu imi ddweud wrthyt, 'Y mae'n rhaid eich geni chwi o'r newydd.' 8Y mae'r gwynt yn chwythu lle y myn, ac yr wyt yn clywed ei sŵn, ond ni wyddost o ble y mae'n dod nac i ble y mae'n mynd. Felly y mae gyda phob un sydd wedi ei eni o'r Ysbryd." 9Dywedodd Nicodemus wrtho, "Sut y gall hyn fod?" 10Atebodd Iesu ef: "A thithau yn athro Israel, a wyt heb ddeall y pethau hyn? 11Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyt mai am yr hyn a wyddom yr ydym yn siarad, ac am yr hyn a welsom yr ydym yn tystiolaethu; ac eto nid ydych yn derbyn ein tystiolaeth. 12Os nad ydych yn credu ar ôl imi lefaru wrthyhych am bethau'r ddaear, sut y credwch os llefaraf wrthyhych am bethau'r nef? 13Nid oes neb wedi esgyn i'r nef ond yr un a ddisgynnodd o'r nef, Mab y Dyn. 14Ac fel y dyrchafodd Moses y sarff yn yr anialwch, felly y mae'n rhaid i Fab y Dyn gael ei ddirchafu, 15er mwyn i bob un sy'n credu gael bywyd tragwyddol ynddo ef." 16Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. 17Oherwydd nid i gondemnio'r byd yr anfonodd Duw ei Fab i'r byd, ond er mwyn i'r byd gael ei achub trwyddo ef. 18Nid yw neb sy'n credu ynddo ef yn cael ei gondemnio, ond y mae'r sawl nad yw'n credu wedi ei gondemnio eisoes, oherwydd ei fod heb gredu yn enw unig Fab Duw. 19A dyma'r condemniad, i'r goleuni ddod i'r byd ond i ddynion garu'r tywyllwch yn hytrach na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd yn ddrwg. 20Oherwydd y mae pob un sy'n gwneud drwg yn casáu'r goleuni, ac nid yw'n dod at y goleuni rhag ofn i'w weithredoedd gael eu dadlennu. 21Ond y mae'r sawl sy'n gwneud y gwirionedd yn dod at y goleuni, fel yr amlygir mai yn Nuw y mae ei weithredoedd wedi eu cyflawni.

JEREMEIA29

Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' medd yr ARGLWYDD, 'bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.

RHUFEINIAID3

21Ond yn awr, yn annibynnol ar gyfraith, y mae cyfiawnder Duw wedi ei amlygu. Y mae'r Gyfraith a'r proffwydi, yn wir, yn dwyn tystiolaeth iddo, 22ond cyfiawnder sydd o Dduw ydyw, trwy ffydd yn Iesu Grist i bawb sy'n credu. 23Ie, pawb yn ddiwahaniaeth, oherwydd y maent oll wedi pechu, ac yn amddifad o ogoniant Duw. 24Gan ras Duw, ac am ddim, y maent yn cael eu cyfiawnhau, trwy'r prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu, 25yr hwn a osododd Duw gerbron y byd, yn ei waed, yn aberth cymod trwy ffydd. Gwnaeth Duw hyn i ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad, yn wyneb yr anwybyddu a fu ar bechodau'r gorffennol yn amser ymatal Duw; 26ie, i ddangos ei gyfiawnder yn ddiymwad yn yr amser presennol hwn, sef ei fod ef ei hun yn gyfiawn a hefyd yn cyfiawnhau'r sawl sy'n meddu ar ffydd yn Iesu.

27A oes lle, felly, i'n hymffrost? Nac oes! Y mae wedi ei gau allan. Ar ba egwyddor? Ai egwyddor cadw gofynion cyfraith? Nage'n wir, ond ar egwyddor ffydd. 28Ein dadl yw y cyfiawnheir rhywun trwy gyfrwng ffydd yn annibynnol ar gadw gofynion cyfraith. 29Ai Duw'r Iddewon yn unig yw Duw? Onid yw'n Dduw'r Cenhedloedd hefyd? 30Ydyw, yn wir, oherwydd un yw Duw, a bydd yn cyfiawnhau'r enwaededig trwy ffydd, a'r dienwaededig trwy'r un ffydd. 31A ydym, ynteu, yn dileu'r Gyfraith trwy'r ffydd hon? Nac ydym, ddim o gwbl! Cadarnhau'r Gyfraith yr ydym.

ACTAU9

1Yr oedd Saul yn dal i chwythu bygythion angheuol yn erbyn disgyblion yr Arglwydd, ac fe aeth at yr archoffeiriad 2a gofyn iddo am lythrau at y synagogau yn Namascus, fel os byddai'n cael hyd i rywrai o bobl y Ffordd, yn wŷr neu'n wragedd, y gallai eu dal a dod â hwy i Jerwsalem. 3Pan oedd ar ei daith ac yn agosáu at Ddamascus, yn sydyn fflachiodd o'i amgylch oleuni o'r nef. 4Syrthiodd ar lawr, a chlywodd lais yn dweud wrtho, "Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?" 5Dywedodd yntau, "Pwy wyt ti, Arglwydd?" Ac ebe'r llais, "Iesu wyf fi, yr hwn yr wyt ti yn ei erlid. 6Ond cod, a dos i mewn i'r ddinas, ac fe ddywedir wrthyth beth sy raid iti ei wneud." 7Yr oedd y dynion oedd yn cyd-deithio ag ef yn sefyll yn fud, yn clywed y llais ond heb weld neb. 8Cododd Saul oddi ar lawr, ond er bod ei lygaid yn agored ni allai weld dim. Arweiniasant ef gerfydd ei law i mewn i Ddamascus. 9Bu am dridiau heb weld, ac ni chymerodd na bwyd na diod. 10Yr oedd rhyw ddisgybl yn Namascus o'r enw Ananias, a dywedodd yr Arglwydd wrtho ef mewn gweledigaeth, "Ananias." Dywedodd yntau, "Dyma fi, Arglwydd." 11Ac meddai'r Arglwydd wrtho, "Cod, a dos i'r stryd a elwir y Stryd Union, a gofyn yn nhŷ Jwdas am ddyn o Darsus o'r enw Saul; cei hyd iddo yno, yn gweddïo; 12ac y mae wedi gweld mewn gweledigaeth ddyn o'r enw Ananias yn dod i mewn ac yn rhoi ei ddwylo arno i roi ei olwg yn ôl iddo." 13Atebodd Ananias, "Arglwydd, yr wyf wedi clywed gan lawer am y dyn hwn, faint o ddrwg y mae wedi ei wneud i'th saint di yn Jerwsalem. 14Yma hefyd y mae ganddo awdurdod oddi wrth y prif offeiriaid i ddal pawb sy'n galw ar dy enw di." 15Ond dywedodd yr Arglwydd wrtho, "Dos di; llestr dewis i mi yw hwn, i ddwyn fy enw gerbron y Cenhedloedd a'u brenhinoedd, a cherbron plant Israel. 16Dangosaf fi iddo faint sy raid iddo'i ddiodef dros fy enw i." 17Aeth Ananias ymaith ac i mewn i'r tŷ, a rhoddodd ei ddwylo arno a dweud, "Y brawd Saul, yr Arglwydd sydd wedi fy anfon—sef Iesu, yr un a ymddangosodd iti ar dy ffordd yma—er mwyn iti gael dy olwg yn ôl, a'th lenwi â'r Ysbryd Glân." 18Ar unwaith syrthiodd rhywbeth fel cen oddi ar ei lygaid, a chafodd ei olwg yn ôl. Cododd, ac fe'i bedyddiwyd, 19a chymerodd luniaeth ac ymgryfhaodd.

LUC24

13Yn awr, yr un dydd, yr oedd dau ohonynt ar eu ffordd i bentref, oddeutu un cilomedr ar ddeg o Jerwsalem, o'r enw Emaus. 14Yr oeddent yn ymddiddan â'i gilydd am yr holl ddigwyddiadau hyn. 15Yn ystod yr ymddiddan a'r trafod, nesaodd Iesu ei hun atynt a dechrau cerdded gyda hwy, 16ond rhwystrwyd eu llygaid rhag ei adnabod ef. 17Meddai wrthynt, "Beth yw'r sylwadau hyn yr ydych yn eu cyfnewid wrth gerdded?" Safasant hwy, a'u digalondid yn eu hwynebau. 18Atebodd yr un o'r enw Cleopas, "Rhaid mai ti yw'r unig ymwelydd â Jerwsalem nad yw'n gwybod am y pethau sydd wedi digwydd yno y dyddiau diwethaf hyn." 19"Pa bethau?" meddai wrthynt. Atebasant hwythau, "Y pethau sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth, dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau yng ngŵydd Duw a'r holl bobl. 20Traddododd ein prif offeiriaid ac aelodau ein Cyngor ef i'w ddedfrydu i farwolaeth, ac fe'i croeshoeliasant. 21Ein gobaith ni oedd mai ef oedd yr un oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid, ond at hyn oll, heddiw yw'r trydydd dydd er pan ddigwyddodd y pethau hyn. 22Er hynny, fe'n syfrdanwyd gan rai gwragedd o'n plith; aethant yn y

bore bach at y bedd, 23a methasant gael ei gorff, ond dychwelsant gan daeru eu bod wedi gweld angylion yn ymddangos, a bod y rheini'n dweud ei fod ef yn fyw. 24Aeth rhai o'n cwmni allan at y bedd, a'i gael yn union fel y dywedodd y gwragedd, ond ni welsant mohono ef." 25Meddai Iesu wrthynt, "Mor ddiiddeall ydych, ac mor araf yw eich calonnau i gredu'r cwbl a lefarodd y proffwydi! 26Onid oedd yn rhaid i'r Meseia ddioddef y pethau hyn, a mynd i mewn i'w ogoniant?" 27A chan ddechrau gyda Moses a'r holl broffwydi, dehonglodd iddynt y pethau a ysgrifennwyd amdano ef ei hun yn yr holl Ysgrythurau.

28Wedi iddynt nesáu at y pentref yr oeddent ar eu ffordd iddo, cymerodd ef arno ei fod yn mynd ymhellach. 29Ond meddent wrtho, gan bwyso arno, "Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben." Yna aeth i mewn i aros gyda hwy. 30Wedi cymryd ei le wrth y bwrdd gyda hwy, cymerodd y bara a bendithio, a'i dorri a'i roi iddynt. 31Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef. A diflannodd ef o'u golwg. 32Meddent wrth ei gilydd, "Onid oedd ein calonnau ar dân ynom wrth iddo siarad â ni ar y ffordd, pan oedd yn egluro'r Ysgrythurau inni?" 33Codasant ar unwaith a dychwelyd i Jerwsalem. Cawsant yr un ar ddeg a'u dilynwyr wedi ymgynnull ynghyd 34ac yn dweud fod yr Arglwydd yn wir wedi ei gyfodi, ac wedi ymddangos i Simon. 35Adroddasant hwythau yr hanes am eu taith, ac fel yr oeddent wedi ei adnabod ef ar doriad y bara.

MaeYnAmlwg (20210428)

Clyw, rŷn ni'n fyw am ei fod. Duw yw awch, rheidrwydd y dechrau. Fe yw bri sŵ ffiseg. Ei fodd bu'r Glec Fawr.

Hynotaf yw deddfau ei natur. Daear a nef, o'i gariad ef y dônt. O'i logos, ein hesblygiad; ei grap fel map ym mhopeth. Rhoddodd wareiddiad.

Drwy ei nerth, dwi o werth, dwi'n wyrthiol.

A rhyfeddod cydnabod ein bod i gyd yn un; rhin pawb o'r un peth; heb amau, gwyrthiau rŷn ni 'gyd; diferion o'r un afon hefyd.

Ein credo, caru pob creadur; a neges pob planhigyn; llwybr ei swyn, gwefr holl bresenol.

Gwerth dyn yw gweld gwyrthiau Duw.

Gwaith celfydd ei fysedd, nid mawredd drwy ymyryd. Achau rhyw undeb a chywreindod; nid niwed a newyn. Dawn nid dinistr. Moes nid mellit. Duw tŷr nid iâwê taran. A diddig addewidion cyd-ddigwyddiadau.

Baich yw pob hen bechod, anochel yw'n pechu. Ond ein bodd, ein modd yw maddau. A naturiol yw, gofyn i Dduw am faddeuant. Rhanu geiryn, tra'n rhoi o'n gorau; a gwyllo rhag ceisio'n rhy galed. Gwirioni bod o ddaioni i ddynion; a thirioni ni'n hunain; i'r hunain sydd orau ohonom.

Gyfeillion llon, rŷn ni'n fwy na digon da.

Gweld y byd â llygaid cyd-ddyn; bod yn was i ras yr Iesu; marwodd ac atgyfododd o'i fedd. Yn ol ethos Luther; ac angor cyngor Kant; cofio'n feunyddiol mai hudol yw cymodi!

Yn gynes yn fy mynwes, golau mewnol; Duw mewn dyn, fel un rŷn ni 'nawr. Duw yw deall; a'i air yw fflam cariad.

RHUFENIAID13

8Peidiwch â bod mewn dyled i neb, ar wahân i'r ddyled o garu eich gilydd. Y mae'r sawl sy'n caru pobl eraill wedi cyflawni holl ofynion y Gyfraith. 9Oherwydd y mae'r gorchmynion, "Na odineba, na ladd, na ladrata, na chwennyech", a phob gorchymyn arall, wedi eu crynhoi yn y gorchymyn hwn: "Câr dy gymydog fel ti dy hun." 10Ni all cariad wneud cam â chymydog. Y mae cariad, felly, yn gyflawniad o holl ofynion y Gyfraith.

RHUFENIAID12

9Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. 10Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch. 11Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd. 12Llawenhewch mewn gobaith. Safwch yn gadarn dan orthrymder. Daliwch ati i weddio. 13Cyfrannwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch. 14Bendithiwch y rhai sy'n eich erlid, bendithiwch heb felltithio byth. 15Llawenhewch gyda'r rhai sy'n llawenhau, ac wylwch gyda'r rhai sy'n wylo. 16Byddwch yn gytûn ymhlith eich gilydd. Gochelwch feddyliau mawreddog; yn hytrach, rhodiwch gyda'r distadl. Peidiwch â'ch cyfrif eich hunain yn ddoeth. 17Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Bydded eich amcanion yn anrhydeddus yng ngolwg pawb. 18Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb. 19Peidiwch â mynnu dial, gyfeillion annwyl, ond rhowch ei gyfle i'r digofaint dwyfol, fel y mae'n ysgrifenedig: " 'Myfi piau dial, myfi a dalaf yn ôl,' medd yr Arglwydd." 20Yn hytrach, os bydd dy elynion yn newynu, rho fwyd iddynt; os byddant yn sychedu, rho iddynt beth i'w yfed. Os gwnei hyn, byddi'n pentyrru marwor poeth ar eu pennau. 21Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni.

Gweddiwn

Dolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto fel teulu Pendref.

Mae'r flwyddyn a haner diwethaf wedi bod yn gyfnod rhyfedd, cyfnod sy'n debygol o barhau am ychydig eto. Cofiwn am rheini, y mae bywyd beunyddiol yn anodd iddynt. Rheini sy'n byw ag afiechyd, neu boen meddwl, neu iselder, neu â thristwch wedi profedigaeth. Cofiwn am rheini sy'n rhoi o'u hamser i helpu pobl mewn angen, heb ddisgwyl dim byd yn ôl. Cofiwn am rheini sy'n gweithredu fel glud yn ein cymdeithas, yn tynu bobl at ei gilydd, yn creu cyfleon cymdeithasol.

Meddylwch yn arbenig am deulu a ffrindiau, a chyd-aelodau, sy'n gofidio ar hyn o bryd.

Gwyddwn fod gan Gymru a Phrydain broblemau gwleidyddol a chymdeithasol dybryd heddiw. Weithiau mae'n edrych yn o ddu arnom. Naturiol yw digaloni a theimlo fel rhoi'r ffdil yn y to. Gweddiwn y bydd ein harweinwyr yn gweld yn glir i roi buddianau'r gymdeithas o flaen eu buddianau personol nhwn eu hunain, ac o flaen buddianau rhyw blaid wleidyddol. Gweddiwn y gwelwn ddyfodiad arweinwyr sy'n ceisio arwain serch y gymdeithas gyfan, nid yn unig serch y ganran o'r gymdeithas sy'n digwydd cytuno â'u credo gwleidyddol.

Diolchwn am neges y Beibl, ac esiampyl bywyd yr Iesu. Am arweiniad bywyd Iesu. Sylweddolwn fod yr atebion i ofidiau a phroblemau'r bywyd modern i'w canfod rhwng gloriau'r Beibl, ond i ni fod yn barod i edrych, i feddwl a myfyrio, i gredu a gweithredu.

Gweddiwn am y nerth i fyw yn dda. I fod yn ffrindiau a chymdogion caredig. I ofalu am ein gilydd, a gofalu am ein hunain. I drin eraill fel y byddem ni yn dymuno cael ein trin. I obeithio, ond yn fwy na hynny, i weithredu bob dydd i ddangos ein cariad at fywyd a'r ddynoliaeth a'r byd o'n cwmpas yn ddi-amod.

A-men

Emyn : Daeth Iesu i'm calon i fyw

O'r fath newid rhyfeddol a wnaed ynof fi,
Torrodd gwawr ar fy enaid, atebwyd fy nghri.

O'm holl lwybrau afradlon dychwelwyd fy nhraed,
ac fe olchwyd fy meiau di-rif yn ei waed.

Y mae gobaith fy enaid yn ddiogel yn awr,
ac fe chwalwyd pob cwmwl – mae'r ffordd fel y wawr.

Collodd angau ei fraw – y mae golau'n y glyn,
y mae'r llwybyr i'r Ddinas dragwyddol yn wyn,

Daeth Iesu i'm calon i fyw, daeth Iesu i'm calon i fyw,
Cwyd llawenydd fy mron megis ton ar ôl ton,
Daeth Iesu i'm calon i fyw.

A gewn ni ddiweddu'r cyfarfod drwy gyd-adrodd y Fendith.